VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

TeleV
Gwasanaethau Larwm Telecare

Tawelwch meddwl a sicrwydd...

...llinell annibyniaeth,

bryd bynnag y bydd ei hangen arnoch!

www.bromorgannwg.gov.uk

TeleV

TeleV

Nod TeleV yw darparu gwasanaeth larwm effeithiol, sensitif ac ymatebol ddydd a nos bob diwrnod o'r flwyddyn i bawb yn y Fro sydd am ei gael. Mae'n ffordd o gadw pobl a'u heiddo'n fwy diogel a'u helpu i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Gwasanaeth i bawb o bob oedran sydd am deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi eu hunain yw hwn. Mae hynny'n cynnwys pobl anabl, pobl sy'n dioddef o salwch difrifol neu barhaol, pobl a fu yn yr ysbyty o dan lawdriniaeth fawr neu fechan ac unrhyw unigolion sydd am fod ychydig yn fwy diogel.

Mae'n cynnig tawelwch meddwl i chi, ddydd a nos, bob diwrnod o'r flwyddyn.

Monitro ddydd a nos

Gall ein canolfan fonitro yng nghanol y Barri ddarparu gwasanaeth larwm brys ar gyfer unrhyw un yn y Fro sydd am barhau i fyw'n annibynnol yn ei gartref ei hun.

Mae gan y rhai sy'n gweithio yn y ganolfan brofiad helaeth o helpu pobl mewn pob math o argyfwng.

www.bromorgannwg.gov.uk

Un o nodweddion pwysicaf gwasanaeth TeleV yw bod ei staff yn ymateb mewn ffordd sy'n gweddu i'ch union anghenion a sefyllfa. Mae pawb yn cael eu hyfforddi'n arbennig ac yn deall na fedr dwy alwad fyth fod yr un fath â'i gilydd.

Help wrth law

Bydd yr aelod o staff yn aros ar ben arall y ffôn nes i help eich cyrraedd ac yn rhoi gwybod i'ch perthnasau am yr hyn sydd wedi digwydd os bydd angen. Cewch chithau a'ch teulu wedyn fod yn gwbl dawel eich meddwl.

Pan ddewiswch eich pecyn diogelu yn y cartref neu ddiogelu eiddo, cewch uned larwm fach (uned gartref) ac ysgogydd radio symudol. Gellwch wisgo'r ysgogydd o gwmpas eich gwddw neu'ch arddwrn os mynnwch, neu ar wregys.

Y cwbl sydd angen ei wneud er mwyn galw am help yw gwasgu'r botwm ar yr ysgogydd neu'r botwm mawr goleuedig ar eich uned gartref. Bydd hynny wedyn yn ysgogi'r prif larwm y tu fewn i'r uned ac yn anfon neges awtomatig i'r ganolfan fonitro 24 awr.

Cewch ragor o synwyryddion os bydd eich pecyn yn gofyn am hynny. Mae'r rheiny'n fanteisiol am eu bod hefyd yn gallu ysgogi'r prif larwm yn eich uned gartref a helpu'r staff i benderfynu sut orau i ymateb i chi.

TeleV

Lle mae'n angenrheidiol, bydd eich manylion yn cael eu rhannu gydag addrannau eraill i sicrhau bod gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol cynhwysfawr yn cael ei ddarparu i chi.

Sut ca' i fod yn rhan o'r system larwn?

Dyma beth sydd ei angen arnoch er mwyn ymuno â system larwm TeleV:

- Soced trydan sbâr
- Llinell ffôn a soced modern

Byddwn hefyd yn gofyn i chi enwi dau neu tri person (lle'n bosib) sy'n cadw allweddi i'ch tŷ a fyddai ar gael i helpu petaech yn gofyn am gymorth.

Beth sydd angen ei wneud nesa'?

Os hoffech wybod mwy am y gwasanaeth, y mae croeso i chi ffonio ein tîm arbennig ar 01446 700111.

Oes angen mwy o wybodaeth neu gyngor arnoch?

Contact Holwch

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

OneVale UnFro

01446 700111

www.valeofglamorgan.gov.uk